

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
3 Chwefror 2016 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Ifor Dylan Williams, Dafydd Iwan, Emyr Williams, Geraint R. Jones, Edd Hughes ,  
Gwyneth Thomas, Ian Jones, Chris Hughes

Cadeirio: Erddyn Davies

Huw Llwyd Rowlands, Clerc

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim

**2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd. Cynnig: Geraint R. Jones

Eilio: Ifor Dylan Williams

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Biniau halen**

Mae'r holl finiau halen yng nghymuned Bontnewydd ar hyn o bryd yn llawn. Oherwydd y tywydd mwyn, ychydig o alw sydd wedi bod am ddefnyddio halen hyd yn hyn y gaeaf hwn.

Rhaid penderfynu erbyn dechrau Ebrill os am gymryd cyfrifoldeb am y biniau oddi wrth Gyngor Gwynedd, a thalu am eu llenwi.

Cyn dod i benderfyniad, cytunwyd y dylid gofyn am gadarnhad am union gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Yn benodol, a fyddai disgwyl i'r Cyngor Cymuned wneud mwy na chynnal a chadw'r biniau halen a sicrhau eu bod yn cael eu llenwi gan Gyngor Gwynedd. Byddai angen sicrhau na fyddai yna ddisgwyliad i'r Cyngor Cymuned fod yn gyfrifol neu yn atebol am daenu'r halen, am gadw'r ffyrdd yn glir, nag am unrhyw niwed neu ddamwain oherwydd na chafodd y ffyrdd eu graeanu'n iawn.

Cytunwyd fod y Clerc i holi Un Llais Cymru a Cyngor Gwynedd am gadarnhad ac eglurder o'r sefyllfa.

## **4.2 Cylchdro Glan Beuno**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gaddo copi o'r adroddiad yn fuan.

## **4.3 Parcio Siop McColl's**

Mae'r Asiantaeth Priffyrdd wrthi'n dylunio argymhellion ar hyn o bryd. Byddant yn danfon copi pan fydd yr adroddiad yn barod.

## **4.4 Tyfiant coed a Llysiau'r cythraul tu cefn i'r Newborough Arms Bontnewydd**

Cysylltodd y Clerc ag asiant Stad Glynllifon, Carter Jonas, ond nid y nhw bellach yw perchnogion y darn perthnasol o afon Gwyrfa. Fodd bynnag, nid oeddynt yn medru dweud pryd y bu iddyn nhw ollwng gafael ar y darn tir, nag i bwy.

Mae'r Clerc wedi gofyn i Carter Jonas ymchwilio ymhellach i'r mater ac mae'n disgwyl ateb.

## **5.MATERION ARIANNOL**

### **5.1 Cyflog a chostau clerc Rhagfyr ac Ionawr 2015 a 2016**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £253.18 x 2

**Cyfanswm Net** £211.58 x 2

### **5.2 Costau postio £1.62**

### **5.3 Balans yn y banc 31 Ionawr 2015 £7,447.15**

### **5.4 Penderfynu ar braesept 2016/17**

Wedi trafodaeth fanwl, enderfynwyd codi'r praesept £1,000 o bunnoedd o £14,500 i £15,500,

a hynny'n bennaf oherwydd fod sefyllfa ariannol y Cyngor wedi bod yn fregus ers rhai blynnyddoedd wedi i Gyngor Gwynedd dorri eu grant.

Yn ogystal, mae galw cynyddol ar gGynghorau Cymuned i gymryd cyfrifoldebau ychwanegol oddi ar awdurdodau lleol, ac heb godi'r praesept, byddai'n amhosibl rhoi unrhyw ystyriaeth i hyn yn y dyfodol.

Cynnig: Geraint R. Jones

Eilio:Dafydd Iwan

## **6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill**

Dim.

## **7. GOHEBIAETH**

- Adroddiad Blynyddol Pwyllgor safonau Cyngor Gwynedd
- Cyfarfod cyhoeddus yn gwrthwynebu cau Swyddfa Treth Porthmadog 20/2/16
- Newidiadau i amserlen fws Nantlle i Gaernarfon ar y Sul

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth

## **8. MATERION ERAILL**

### **8.1 Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Lleol (Cymru) Drafft**

Cynigiodd y Cynghorydd Geraint R. Jones sylwadau ar yr ymgynghoriad. Wedi trafodaeth fe benderfynwyd fod y Clerc yn ymateb gan bwysleisio wrth adolygu ffiniau, mai'r peth pwysig oedd sicrhau clystyru ardaloedd Cymraeg cryf efo'i gilydd yn hytrach nag ystyried niferoedd y boblogaeth yn unig.

### **8.2 Ffordd osgoi Bontnewydd - Penybryn a Rhos-Bach**

Derbyniodd y Cynghorydd Chris Hughes lythyr gan aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryder am effaith y ffordd osgoi ar y ffordd bresennol rhwng Penybryn a Rhos-Bach.

Y pryder yw fod bwriad i gau'r ffordd rwng Penybryn a Chaeathro, ond i gadw ffordd Rhos-Bach ar agor i draffig sydd am deithio trwodd. Bydd hyn yn golygu codi lefel y ffordd osgoi er mwyn mynd dros ffordd Rhos-Bach.

Cytunwyd y dylai'r clerch ddanfôn llythyr at Lywodraeth Cymru a Rheolwr y Prosiect yn mynegi pryder am yr agwedd yma.

### **8.3 Bin arosfan fysiau**

Gofynnodd aelod o'r cyhoedd am osod bin ar y polyn yn yr arosfan fysiau rhwng Meifod a Rhes Brymer. Credir fod bin wedi cael ei osod yn yn y gorffennol, ond ei fod wedi diflannu ers peth amser.

Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn a fydden nhw'n fodlon gosod bin.

### **8.4 Llifogydd Bontnewydd**

Trefnir cyfarfod yn leol ar 12 chwefror, gyda'r Aelod Cynulliad Alun ffred Jones yn cadeirio.

Tybiwyd fod y broblem yn fwy na dim ond dŵr yn gorlifo o'r afonydd Beuno a Gwyrfaï. Gall fod y broblem oherwydd fod y cwlfer yn rhy fach. Er enghraifft, cafwyd enghreifftiau o ddwr yn codi drwy draneiau a lloriau tai.

Mae'n debyg y paratowyd adroddiad ar y sefyllfa beth amser yn ol gan Cefin Edwards, Cyngor Gwynedd. Awgrymwyd fod y Clerc yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn ceisio cael gafael ar gopi o'r adroddiad, ac yn gofyn i Gyngor Gwynedd sicrhau fod gwelliannau yn cael eu gwneud fel na fyddai'r broblem yn codi eto.

Awgrymwyd hefyd fod y Clerc yn cysylltu efo Cyfoeth Naturiol Cymru gan ofyn eu barn hwy ar y mater.

### **8.5 Arwyddion fflachio cyflymder Bontnewydd**

Nododd y Cynghorydd Gwyneth Thomas fod yr arwyddion cyflymder a osodwyd yn gymharol ddiweddar ym Montnewydd, ac sy'n fflachio ar ddechrau ac ar ddiwedd diwrnod ysgol yn anghyson ac yn ansynhwyrol o ran eu dangosiad cyflymder.

Mae'r arwyddion ar y ffordd i mewn i Fontnewydd yn dangos 20 mya, tra bod yr arwyddion ger yr ysgol, yn dangos 30 mya.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo'r Asiantaeth Priffyrdd er mwyn nodi'r anghysondeb a gofyn am eglurhad.

### **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**3 Mawrth 2016** am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd